# PWYLLGOR PENSIYNAU, 16.12.09

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Trevor Edwards, John R.Jones a Gwilym Euros Roberts.

**Aelod Cyfetholedig:-**Y Cynghorydd Goronwy O.Parry (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Daphne Humphreys (Rheolwr Pensiynau a Chyflogau), Gareth Jones (Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Hefyd yn bresennol:-** Gwenan Medi Williams (Swyddog Pensiynau), Robin Glyn (Swyddog Systemau Pensiwn) ac Ayesha Lisa Blake (Swyddog Cyfathrebu) (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen); Amanda Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru) (ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen a'r Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATER BRYS

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y ffaith bod aelodau newydd y pwyllgor wedi bod ar gwrs tridiau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar bensiynau yn gyffredinol yn ddiweddar iawn ac y cynigid cwrs gloywi undydd ar y pwnc ar gyfer aelodau oedd wedi bod ar y cwrs sylfaenol yn y gorffennol. Byddai'n gyrru'r manylion perthnasol i'r aelodau a gofynnodd i unrhyw un oedd yn dymuno mynd ar y cwrs adael iddo wybod fel y gallai wneud y trefniadau angenrheidiol.

Holodd aelod a oedd y swyddogion yn ymwybodol bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn trefnu sesiwn ar reoli cyllidebau pensiwn ar 21 Ionawr, 2010?

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y credai fod y sesiwn hwnnw'n fwy perthnasol i gyflogwyr na chronfeydd pensiynau, ond byddai'n gwirio hynny.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2009 fel rhai cywir.

## 4. LLWYDDIANT MEWN ARHOLIADAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn nodi bod pedwar aelod o staff yr Uned Bensiynau, sef Gwennan Medi Williams (Swyddog Pensiynau), Robin Glyn (Swyddog Systemau Pensiwn), Dafydd Richard Owen (Swyddog Pensiynau) ac Ayesha Lisa Blake

(Swyddog Cyfathrebu) wedi llwyddo i ennill Diploma Mewn Rheolaeth Pensiwn Llywodraeth Leol gan yr Institute of Payroll Professionals – Pensions Faculty (IPP). ‘Roedd Ayesha Lisa Blake hefyd wedi ennill dwy wobr genedlaethol am fod y Myfyriwr Blwyddyn Dau (Pensiynau) gorau, ac am y traethawd gorau (TMA6 Dissertation).

Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn hynod falch o’r llwyddiant hwn ac ychwanegodd fod gan yr Uned Bensiynau staff cymwysedig iawn fydd yn gefn i symud ymlaen i wynebu her y dyfodol yn y maes pensiynau.

**PENDERFYNWYD llongyfarch y staff ar eu llwyddiant a diolch iddynt am eu hymdrechion.**

## 5. POLISI CYFATHREBU DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn argymell i’r pwyllgor gymeradwyo’r Polisi Gwella Cyfathrebu ar gyfer ei argraffu a’i gyhoeddi.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y rhan o’r polisi sy’n trafod cyfathrebu gydag aelodau sy’n cyfrannu gan awgrymu nad oedd y geiriau “*ar gael”* yn y frawddeg gyntaf o dan y pennawd “Sioeau Teithiol Cronfa Bensiwn Gwynedd”, sef “*Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gael i fod yn bresennol mewn digwyddiadau cyflogwyr ac i ddarparu stondin pensiynau …*” yn rhagweithiol iawn, yn enwedig o ystyried bod yna ddau swyddog wedi’u penodi’n benodol ar gyfer hyn.

Yna cyfeiriodd y Cadeirydd at benderfyniad (b) o dan eitem 5 o gofnodion y cyfarfod diwethaf o’r pwyllgor – Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Cronfeydd Pensiwn – oedd yn nodi y dylid prysuro ymlaen i gynnal cyfarfodydd anffurfiol â’r cyflogwyr, gan awgrymu nad oedd y rhan o’r polisi sy’n trafod cyfathrebu gyda chyflogwyr yn dweud rhyw lawer.

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Cyllid fod yna gyfarfodydd wedi digwydd yn y cylch diwethaf.

Ychwanegodd y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau y bwriedid ffurfioli trefn o gynnal cyfarfodydd anffurfiol ddwywaith y flwyddyn ynghyd â chyfarfodydd ychwanegol i hynny yn ôl y galw.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r Polisi Gwella Cyfathrebu ar gyfer ei argraffu a’i gyhoeddi yn amodol ar ddiwygio’r frawddeg gyntaf o dan yr is-bennawd “Sioeau Teithiol Cronfa Bensiwn Gwynedd” o dan y prif bennawd “Cyfathrebu gydag aelodau sy’n cyfrannu” i gyfeirio’n benodol at ddau Swyddog Cyfathrebu’r Uned Bensiynau.**

## 6. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

Cyflwynwyd – Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru at aelodau’r Pwyllgor Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd ac aelodau o Gyngor Gwynedd.

Croesawyd Amanda Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru) i gyflwyno’r llythyr blynyddol ac i ymateb i gwestiynau’r aelodau.

Nododd aelod fod y ffi archwilio, sef £20,031, yn afresymol o uchel am bedair tudalen o wybodaeth a gofynnodd a oedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i’r Cyngor gael yr archwiliad hwn.

Mewn ymateb, eglurodd Amanda Hughes fod y ffi am archwiliad cyflawn o gyfrifon y Gronfa Bensiwn ac nad oedd maint y Llythyr Archwilio Blynyddol yn adlewyrchu'r holl waith manwl 'roedd wedi mynd i mewn i wneud yr archwiliad ariannol statudol. Ychwanegodd yr arferai'r ffi am y gwasanaeth hwn fod wedi'i gynnwys fel rhan o'r ffi am y prif archwiliad o gyfrifon y Cyngor yn y gorffennol.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â pham fod yr archwiliad o'r Gronfa Bensiwn ar wahân i'r prif archwiliad o gyfrifon y Cyngor, eglurodd Amanda Hughes mai'r prif reswm am hyn oedd yr ystyrid bod y risgiau a'r heriau penodol sy'n wynebu cronfeydd pensiwn yn ddigon perthnasol i gyfiawnhau archwiliad ar wahân.

Holodd aelod a oedd cael archwiliad ar wahân yn costio mwy i'r Gronfa Bensiwn.

Atebodd y Pennaeth Cyllid y codwyd ffi o £20,031 am yr archwiliad o'r Gronfa Bensiwn, ac er bod yr archwiliad ar wahân o'r Gronfa wedi darganfod mwy o bethau nag a ddarganfuwyd yn y gorffennol, 'roedd yn deall pam y gofynnwyd y cwestiwn a oedd hynny'n werth £20,000.

Holodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a fyddai'r gwaith fyddai'n cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol yn seiliedig ar asesiad o'r risg, a phetai'n dod i'r amlwg bod y risg hwnnw'n lleihau o ganlyniad i drefniadau llywodraethol cryf, a fyddai'r archwiliad, ac felly'r ffi, yn lleihau oherwydd bod y risg yn lleihau?

Atebodd Amanda Hughes, er na allai gadarnhau'n bendant beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol, bod yr archwiliad yn seiliedig ar risg a phe gwelid dros amser bod y risg hwnnw'n lleihau, byddai'n tybio y byddai hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ffi.

**PENDERFYNWYD derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol.**

## 7. CLUB VITA

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a ddymunai ymaelodi â gwasanaeth Club Vita, sef partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a sefydlwyd yn wreiddiol gan Hymans Robertson i weithredu ar sail tâl aelodaeth ar gyfer cronfeydd pensiwn gyda mwy na 1,000 o aelodau gyda'r nod o wella'r gronfa wybodaeth ynglŷn ag oes bywyd eu haelodaeth er mwyn caniatáu iddynt reoli'r risg hwnnw'n well.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r gwasanaeth hwn yn costio £10,000 y flwyddyn, ynghyd â chost ymaelodi o £5,000. Fodd bynnag, gallai'r buddsoddiad hwn arwain at ostyngiad cyfraniad cyflogwr o rhwng 1 - 2.5% y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD ymaelodi â gwasanaeth Club Vita ac adolygu'r sefyllfa ymhen 12 mis.**

## 8. COMPASS

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a ddymunai ymaelodi â Compass, sef cyfundrefn newydd a ddatblygwyd gan Hymans Robertson sy'n defnyddio eu model o amrediad o ganlyniadau allasai ddigwydd yn y dyfodol er mwyn datblygu cynllun tymor hir ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr.

Nododd aelod nad oedd wedi'i argyhoeddi'n llwyr fod hwn yn syniad da oherwydd nad oedd yn trin pob corff o fewn y Gronfa yn yr un modd. Fodd bynnag, nododd ei fod am

gefnogi'r cynnig i symud ymlaen â hyn, yn ddarostyngedig i gael diweddariadau o'r sefyllfa o bryd i'w gilydd.

Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r swyddogion yn adrodd yn ôl ac mai'r aelodau fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen. Y cwbl a wneid ar hyn o bryd oedd comisiynu'r gwaith.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r swyddogion yn gwneud asesiad o'r risg i weddill y cyflogwyr yn y Gronfa o adael i rai cyrff ddod i mewn i hyn ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor gyda'r asesiad risg hwnnw.

**PENDERFYNWYD ymaelodi â chyfundrefn Compass er mwyn sefydlu sylfaen dadansoddol ar gyfer sefydlu cyfraniad cyflogwr hir dymor sy'n cymryd i ystyriaeth natur unigryw'r sefyllfa bresennol, a chadw golwg ar y sefyllfa.**

## 9. RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (RHEOLI A BUDDSODDI CRONFEYDD) 2009

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau yn crynhoi prif ddarpariaethau Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 fyddai'n dod i rym ar 1 Ionawr, 2010, ac yn cymryd lle Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 1998.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10. CYNHADLEDD BUDDSODDI'R LGC – 10/11 MEDI, 2009

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn hysbysu'r pwyllgor o'r budd a gafwyd o fynychu Cynhadledd Buddsoddi'r LGC.

Nododd aelod fu'n bresennol yn y gynhadledd fod cyflwyniadau Ewen Cameron Watt, Rheolwr Gyfarwyddwr a Rheolwr Portffolio, Black Rock, Simon Savage, Rheolwr Asedau – Rheolaeth Risg a Dyrannu Gweithredol, GLG a Ronnie Bowie, Uwchbartner – Hymans Robertson, wedi bod yn hynod ddiddorol ac addysgiadol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr Gwilym Euros Roberts a W.Tudor Owen, ynghyd a'r Pennaeth Cyllid, am fynychu'r gynhadledd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14 a 16, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys cyngor a gafwyd gan Hymans Robertson o dan eu telerau arferol na ddatgelir y cyngor hwnnw i eraill. Mae hefyd yn trafod sefyllfa un o Ymgynghorwyr Buddsoddi'r Cyngor a'r perygl iddynt golli cytundeb. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 12. BUDDSODDI MEWN EIDDO

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gofyn i'r pwyllgor ystyried awgrymiadau papur cynghori a dderbyniwyd gan Hymans Robertson.

**PENDERFYNWYD gweithredu ar hyd y llinellau a awgrymir gan Hymans Robertson, sef buddsoddi hyd at £20m yn uniongyrchol yng nghronfeydd eiddo Blackrock a / neu KBC Lothbury er mwyn sicrhau cynnydd yn ein buddsoddiadau eiddo.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1.50pm.